**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 1 MAI 2025 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Nicola Jones, Janet Knott, Jenny Jones, Elfyn Williams, Rheinallt Jones ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas, Shan Rees, Meinir James, Viv Davies, Eifion Jones a Cynghorydd Sir Tyssul Evans.

Nodwyd bod y Cynghorydd Viv Davies wedi cael ei gymryd yn sâl eto yn ddiweddar. Derbyniwyd ymddiheuriadau'r Cynghorydd Davies am fis arall o ganlyniad.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd Ebrill 2025.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
2. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **Grid Cenedlaethol** – **Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog –** Derbyniodd y Cyngor e-bost yn cynnig cyfarfod â Thîm yr Is-orsaf i drafod y sefyllfa bresennol. Derbynnir y cynnig hwn a gofynnir am ddyddiad.
6. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynnau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
8. **Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2 –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
9. **Cynigion cyfyngiadau aros ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
10. **PL/04973** - **1-4 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
11. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.

12. **Pryderon ynghylch cyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd Heol Bolahaul –** Derbyniodd y Cyngor y canfyddiadau data cyflymder ar gyfer y cyfnod 14fed – 21ain Chwefror fel a ganlyn:

| Dyddiad | Cyfeiriad | Cyfanswm Cerbydau | Cyfartaledd Cyflymder | 85%ile | 95%ile |
|---|---|---|---|---|---|
| 14fed – 21ain Chwefror 2025 | I'r gogledd | 27574 | 31.1 | 34.9 | 38.9 |
| | I'r de | 40622 | 29.7 | 35.3 | 41.3 |
| | Y ddau gyfeiriad | 68196 | 30.3 | 35.1 | 40.3 |

Cadarnhawyd hefyd bod yr heddlu yn asesu'r lleoliad ar gyfer gorfodi. Bydd y manylion yn cael eu darparu i'r preswylydd lleol a oedd wedi mynegi pryderon ynghyd â'r Cyngor Sir. Gofynnir am wybodaeth am ganfyddiadau gweithgareddau gorfodi diweddar yr heddlu yn y Gymuned.

13. **Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau a Cellan – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau** – Cyflwynodd y Clerc cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Ebrill 2025 er sylw'r aelodau. Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan y Cyng Nicola Jones. Cytunwyd y byddai cofnodion y cyfarfodydd hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac y byddai'r Cynghorydd Nicola Jones yn parhau fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyfer y cyfarfodydd ynghyd â'r Clerc. Nodwyd.
14. **Parc Solar Heol Ddu** – Bydd Aelodau'n ystyried yr angen i ofyn am ollyngiadau ar gyfer unrhyw fuddiannau canfyddedig sydd ganddynt ac y gallent fod yn briodol i'w datgan cyn bod y Cyngor yn ystyried y mater.
15. **Green Gen** – Roedd y Cyngor yn aros am ymateb i ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.
16. **Sgip wedi tipio'n anghyfreithlon ym Mhencady –** Nodwyd bod y mater yn cael ei ymchwilio a bod angen cefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.
17. **Materion gwefan –** Cadarnhaodd y Clerc fod materion gwefan wedi eu lleddfu. Nodwyd.
18. **Rhoddion a wnaed yng nghyfarfod mis Ebrill –** Derbyniwyd llythyrau diolch oddi wrth Apêl Cronfa i Bawb Urdd Gobaith Cymru, CFfI Llanismel a SSAFA am y rhoddion diweddar gan y Cyngor.

**6. Gohebiaeth**

1. **Banc Barclays –** Datganiadau, arwyddwyd y cysoniad banc gan y Cyng
2. **Un Llais Cymru –** Cais am gynigion ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol i'w gynnal ar 1af Hydref 2025. Bydd y Cyngor yn ystyried cynigion posibl mewn perthynas â'r prosiectau seilwaith ynni sy'n destun ymgynghoriad / ystyriaeth ar hyn o bryd, sy'n effeithio ar y Gymuned. Gofynnir am wybodaeth hefyd gan Un Llais Cymru ynghylch a yw'n eistedd ar unrhyw gyrff Llywodraeth Cymru sy'n ystyried prosiectau ynni adnewyddadwy.
3. **Un Llais Cymru –** Cofnodion Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 14eg Ebrill 2025. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cais am ddata cod ymddygiad. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cwblhau'r arolwg. Nodwyd.

5. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cais am enwebiadau ar gyfer cynrychiolydd Cynghorau Cymuned a Thref ar Fforwm Derbyn Ysgolion y Cyngor Sir. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Gwahoddiad i'r Cadeirydd fynychu Rali CFfI Sir Gâr ar y 10fed Fai 2025. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru –** E-fwletin. Nodwyd.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru –** Cais am enwebiadau ar gyfer Aelod Annibynnol o Pwyllgor Archwilio Un Llais Cymru. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cadarnhad o daliad 1/3 o Praesept 2025-26 sef £10,334.34. Nodwyd.
11. **Un Llais Cymru –** Digwyddiadau hyfforddi Ebrill – Mehefin. Nodwyd.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hyfforddiant Hysbysiad Cod Ymddygiad i'w gynnal ar-lein ar 10fed Gorffennaf 2025. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. Roedd y Clerc wedi gofyn am wybodaeth ar gost adnewyddu'r Paneli Hanes Cymunedol a oedd yn dechrau pylu fel a ganlyn:
   Pryor Signs (Contractwr Gwreiddiol)

| | | |
|---|---|---|
| i. | Cynhyrchu 3 phanel | £3,105.00 |
| ii. | Dosbarthiad | £330.00 |
| iii. | Gosodiad | £1,500.00 |

Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau mewn perthynas â ffrydiau ariannu posib.

**8. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Nododd y Clerc fod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn parhau i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i fod yn Gyngor cymwys sy'n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Ystyriodd y Cyngor y materion a cytunwyd yn unfrydol i mabwysiadu penderfyniad yn cadarnhau bod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn parhau i fodloni'r amodau yn unol ag Atodlen 4, Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ei fod yn gyngor cymuned cymwys sy'n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

**9. Taliadau a Lwfansau Aelodau 2025-26**

Rhoddwyd ystyriaeth i penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y flwyddyn 2025-26 fel a ganlyn.

**Cost Gofal** - Roedd rhaid i'r Cyngor ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol.

Byddai hyn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd hyn.

**Costau a Threuliau 1 –** Roedd rhaid i'r Cyngor sicrhau bod taliad o £156 y flwyddyn ar gael i bob un o'i aelodau tuag at gostau cartref ychwanegol (gan gynnwys gwres, golau, pŵer a band eang) o weithio gartref.

Bydd hwn yn cael ei dalu yn mis Mawrth bob blwyddyn oni bai bod aelod yn cadarnhau i’r Clerc nad yw’n dymuno hawlio’r cyfan, neu ran ohono. Nodwyd hyn.

**Costau a Threuliau 2** – Roedd rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i’w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost nwyddau traul eu swydd.

Cytunwyd i ddarparu ar gyfer ad-daliad am gost nwyddau swyddfa. Bydd hwn yn cael ei dalu yn mis Mawrth bob blwyddyn oni bai bod aelod yn cadarnhau i’r Clerc nad yw’n dymuno hawlio’r cyfan, neu ran ohono. Nodwyd hyn.

**Swyddi Uwch** – Gall y Cyngor darparu taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i o un ac uchafswm o tri aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau. Cytunwyd i ddarparu’r taliad hwn.

**Teithio** – Gall y Cyngor wneud taliadau i bob un o’i aelodau mewn perthynas â chostau teithio am fynychu dyletswyddau cymeradwyyd. Roedd hyn yn ddewisol. Nodwyd a cytunwyd hyn.

**Aros dros nos** – Gall y Cyngor, os yw dyletswydd yn gofyn am aros dros nos, awdurdodi ad-dalu costau cynhaliaeth i’w aelodau ar y cyfraddau uchaf a gyhoeddwyd. Roedd hyn yn ddewisol.

Byddai hwn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod dilynol ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd a chymeradwywyd hyn.

**Colled Ariannol** – Gall y Cyngor dalu iawndal colled ariannol i bob un o’i aelodau, lle bu colled o’r fath, am fynychu dyletswyddau cymeradwy fel y’u cyhoeddwyd.

Byddai hwn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod dilynol ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd a chymeradwywyd hyn.

**Lwfans Presenoldeb** – Gall y Cyngor dalu lwfans presenoldeb i aelodau. Yr uchafswm gorfodol ar gyfer pob digwyddiad cymwys oedd £30 ac ni fydd gan aelod sy'n derbyn iawndal colled ariannol hawl i hawlio lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.

Os bydd y cyngor yn penderfynu o blaid lwfansau presenoldeb, rhaid iddo lunio cynllun i’w fabwysiadu’n ffurfiol a gwneud darpariaeth iddo fod ar gael i’r cyhoedd.

Rhaid i daliadau am bresenoldeb fod mewn perthynas â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor neu fel arall drwy benderfyniad penodol. Dylai'r cynllun nodi ar gyfer pa ddigwyddiadau y gwneir taliadau.

Bydd gan bob aelod o'r cyngor hawl i'r taliad am fynychu'r digwyddiadau a nodir yn y cynllun, ond gall aelod unigol wrthod derbyn taliad drwy hysbys'r Clerc (yn ysgrifenedig). Cytunwyd i beidio ddarparu'r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**Pennaeth Dinesig** – Roedd y Cyngor yn gallu roi taliad Pennaeth Dinesig i'r Cadeirydd hyd at uchafswm o £1,500. Roedd hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw. Roedd y taliad hwn yn ychwanegol at y gyllideb o £420 a ddyrennir i weithgareddau'r Cadeirydd. Cytunwyd i beidio ddarparu'r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**Dirprwy Bennaeth Dinesig** – Gall y Cyngor roi taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i'r Is-Gadeirydd hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch gyflog o £500 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw. Cytunwyd i beidio ddarparu'r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**10. Cytundeb Yswiriant 2024-25**

Rhoddwyd ystyriaeth i Bolisi Yswiriant y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024-25 gyda 4ydd flwyddyn y cytundeb 5 mlynedd wedi ei nodi a'i gymeradwyo ar gost o £555.81.

**11. Digwyddiadau Cymunedol 2025**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2025 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi – Llysiau (Mehefin) a Blodau (Awst);
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol – Gardd Fach, Mewn Unrhyw Deunydd, dim mwy na Maint A3.
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Cymunedol – 9fed Mehefin 2025

Trafodwyd barnwr a bydd y Clerc yn cysylltu. Cytunwyd i gynnal y Noson Ddathlu ar 18eg Awst 2025.

**12. Cynllunio**

1. **PL/09124 -** Newid defnydd ysgubor garreg i anecs i'r ffermdy - Panteg, Llandyfaelog, Cydweli, SA17 5RA. Dim gwrthwynebiadau.

**13. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

**1. Zurich Municipal** **£555.81** Polisi yswiriant 2025-26 Gweler eitem 11

| 2. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Ebrill a costau** | **£751.49** | **£26.00<br>£7.00<br>£11.70<br>£17.02** | **£813.21** | **£310.20** | **£50.17** | **£503.17** |

**3. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** **£52.00** Tanysgrifiad 2025-26

## 14. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
    a. Bin wedi'i ddifrodi yng nghysgodfan bws Llandyfaelog.
    b. Goleuadau troedffordd ddim yn gweithio yn Dan y Graig.
    c. Twll yn Heol y Lan.
2. Nodwyd bod diffyg casgliad o sachau du ym Maesdolau ynghyd â thipio anghyfreithlon yn yr ardal.
3. Nodwyd bod arwydd ffordd wedi'i ddifrodi ym Mhentycrug a bydd yn cael ei adrodd i'r Cyngor Sir.
4. Nodwyd bod angen torri'r gyffordd yn Llandyfaelog ac adroddir i'r Cyngor Sir.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 5$^{ed}$ Mehefin 2025.**